**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Arfarnu'r Prif Weithredwr

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 4 Tachwedd 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**:

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| M C Child | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| C A Holley | D H Hopkins | A S Lewis |
| R C Stewart | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L R Jones

---

**1 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021-2022.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021-2022.

**Bu'r Cynghorydd RC Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu**

**2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021-2022.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd A S Lewis yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021-2022.

**3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**4 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

**5 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraffau gwahardd 12 ac 13 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r eitem fusnes fel a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**6 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Prif Weithredwr.**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn amlinellu ei berfformiad yn erbyn amcanion Hydref 2020 - Medi 2021 y cytunwyd arnynt gan Bwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth y Prif Weithredwr ar 13 Hydref 2020.

Roedd yr amcanion yn cynnwys y themâu canlynol: Enw da, Ad-drefnu/Cydweithio'r Awdurdod Lleol, Adfywio'r ddinas, Rhaglen Drawsnewid, y gyllideb, blaenoriaethau corfforaethol ac ymateb i COVID-19.

Nododd a chynhigiodd y Prif Weithredwr yr amcanion arfaethedig ar gyfer 2021-2022.

Ystyriodd y Pwyllgor ei berfformiad yn ystod 2020-2021 a'i amcanion arfaethedig ar gyfer 2021-2022 a gofynnodd nifer o gwestiynau ynghylch yr amrywiol amcanion, meysydd pwnc a pherfformiad.

Gwnaeth y Pwyllgor bennu amcanion y Prif Weithredwr 2021-2022 yn ôl y themâu canlynol: Enw da, Ad-drefnu/Cydweithio'r Awdurdod Lleol, Adfywio'r ddinas, Rhaglen Drawsnewid, y gyllideb, blaenoriaethau corfforaethol ac ymateb i COVID-19.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Roedd y Pwyllgor yn fodlon â pherfformiad y Prif Weithredwr yn erbyn Amcanion 2020-2021.

2) Cytunodd y Pwyllgor ar amcanion y Prif Weithredwr ar gyfer 2021-2022.

**7 Gohiriwyd y cyfarfod**

Gohiriwyd y cyfarfod am 3.03pm.

Bydd y cyfarfod yn ailgynnull am 3.00pm, dydd Llun, 15 Tachwedd 2021.

**8 Cyfarfod a ailalwyd - 3.00pm dydd Llun, 15 Tachwedd 2021**

Ailygynullodd y cyfarfod â'r un Cynghorwyr a Swyddogion yn bresennol. Roedd y Dirprwy Brif Weithredwr, Adam Hill, hefyd yn bresennol.

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd L R Jones.

**9 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Dirprwy Prif Weithredwr.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr adroddiad a oedd yn amlinellu’i amcanion a'i gyflawniadau ar gyfer Hydref 2020 - Medi 2021.

Roedd amcanion a chyflawniadau 2020-2021 yn cynnwys y themâu canlynol: Blaenoriaethau Corfforaethol, Gweithio mewn Partneriaeth, Y Rhaglen Drawsnewid, Enw da, Gwasanaethau Allweddol, Gwasanaeth Monitro ac Olrhain a'r ymateb i bandemig COVID-19, y Gyllideb, darparu rhywun i gymryd lle’r Prif Weithredwr yn ffurfiol a’r Portffolio Gwasanaethau.

Nododd a chynigiodd y Dirprwy Brif Weithredwr amcanion ar gyfer 2021-2022.

Ystyriodd y Pwyllgor ei berfformiad yn ystod 2020-2021 a'i amcanion arfaethedig ar gyfer 2021-2022 a gofynnodd nifer o gwestiynau ynghylch yr amrywiol amcanion, meysydd pwnc a pherfformiad.

Pennodd y Pwyllgor amcanion y Prif Weithredwr ar gyfer 2021-2022 yn ôl y themâu canlynol: Y Gyllideb, y Gwasanaeth Monitro ac Olrhain a'r ymateb i bandemig COVID-19, Ailstrwythuro ac Ailffocysu Adnoddau, Y Rhaglen Trawsnewid a Newid - Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd, Enw da, Gweithio mewn partneriaeth, Rhanbartholi - Gweithio rhanbarthol a Goruchwylio Corfforaethol.

**Penderfynwydar y canlynol:**

1) Roedd y pwyllgor yn fodlon ar berfformiad y Prif Weithredwr yn erbyn Amcanion 2020-2021.

2) Cytunodd y Pwyllgor ar amcanion y Prif Weithredwr ar gyfer 2021-2022.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.33 pm

**Cadeirydd**